# Rhoi triniaethau gofal iechyd sylfaenol i geffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys rhoi triniaethau gofal iechyd sylfaenol i geffylau, yn unol â chyfarwyddiadau milfeddygol a gofynion deddfwriaethol. Mae hefyd yn cynnwys adnabod a thrin problemau iechyd a mân anhwylderau.

Mae'r safon hon yn berthnasol i bob math o geffylau.  Dylech wybod ble i gael cymorth os ydych yn cael unrhyw broblemau.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. storio a gweinyddu cyffuriau, meddyginiaethau ac offer a ddefnyddir i roi triniaethau gofal iechyd sylfaenol i geffylau, yn unol â chyfarwyddiadau milfeddygol a gofynion iechyd a diogelwch
3. defnyddio meddyginiaeth gyfredol heb ei halogi'n unig ar gyfer y ceffyl perthnasol
4. ymdrin ac atal y ceffyl mewn ffordd nad yw'n peryglu lles yr anifail, yn osgoi ymddygiad sy'n achosi pryder o ran lles ac yn cynnal iechyd a diogelwch
5. rhoi'r driniaeth gofal iechyd sylfaenol i'r ceffyl fel y nodir, gan ddefnyddio'r dechneg a'r amlder cywir
6. gweinyddu gweithdrefnau brys lle bo angen
7. cael cymorth heb oedi pan nad yw'n bosibl gweinyddu'r driniaeth gofal iechyd sylfaenol i'r ceffyl
8. gweithredu gofal, deiet ac ymarfer arferol priodol ar gyfer y ceffyl ar ôl y driniaeth
9. arsylwi ceffylau ar ôl y driniaeth a hysbysu ynghylch unrhyw arwyddion anarferol ar unwaith
10. cymryd camau priodol os rhagwelir clefydau heintus neu heintiol
11. sicrhau bod lefelau priodol o hylendid a bioddiogelwch yn cael eu cynnal
12. cadw cofnodion cywir a diweddar fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
13. cyfathrebu gydag eraill a chynnal gwaith tîm affeithiol
14. sicrhau bod gwastraff o driniaethau gofal iechyd yn cael eu gwaredu'n ddiogel ac yn gywir
15. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. pam y mae angen dehongli cyfarwyddiadau meddyginiaethau yn gywir
3. sut i ddefnyddio'r offer sy'n briodol ar gyfer trin y ceffyl
4. pwysigrwydd defnyddio technegau ymdrin ac atal a lleihau lefelau straen i ddiogelwch y triniwr a'r ceffyl
5. y gweithdrefnau glanhau a hylendid i'w dilyn wrth gyflwyno triniaethau gofal iechyd er mwyn lleihau milheintiau a chlefydau trosglwyddadwy eraill
6. sut i roi triniaethau gofal iechyd a gweithdrefnau brys i geffylau
7. sgil-effeithiau neu adweithiau niweidiol i feddyginiaeth a allai ddigwydd i'r ceffyl
8. y rhesymau dros a'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer atal y defnydd o gyffuriau
9. y gofynion deddfwriaethol ar gyfer defnyddio a storio cyffuriau
10. arwyddocâd dyddiadau dod i ben ar gyffuriau a meddyginiaethau a'r gweithdrefnau cywir ar gyfer eu gwaredu
11. y gweithdrefnau ar gyfer gwaredu gwastraff a nodwyddau wedi eu halogi a heb eu halogi yn ddiogel
12. y camau priodol os rhagwelir neu y gwelir clefydau heintus neu heintiol
13. pwysigrwydd gwerthuso'r camau a gymerir wrth ymdrin ag unrhyw broblemau yn rhoi triniaethau gofal iechyd sylfaenol i geffylau
14. pwysigrwydd cadw cofnodion cyflawn a chywir fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
15. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
16. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Cyflenwi'r feddyginiaeth ganlynol:

- meddyginiaeth presgripsiwn yn unig
- meddyginiaeth dros y cownter
- rheoli parasitiaid

Cyflenwi'r mathau canlynol o driniaeth:

- gweithdrefnau glanhau a hylendid
- triniaethau lleol
- triniaethau trwy'r geg
- triniaethau ar gyfer clwyfau

## Geirfa

Gallai'r triniaethau gynnwys:

- powltrisiau (poeth neu oer)
- golchi mewn twba
- chwistrellu
- twymolchi

Gallai'r meddyginiaethau gynnwys:

- pastau
- powdrau
- hylif drwy'r geg neu mewn bwyd

Gallai triniaethau lleol gynnwys:

- powdrau gwrth-heintiol
- eliau
- golchiadau

# Rhoi triniaethau gofal iechyd sylfaenol i geffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq303 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; iechyd a lles anifeiliaid; triniaethau |